Canllaw byr i Adroddiadau Caffael Cymdeithasol Gyfrifol Blynyddol (ASRPRs)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Mae Cymru wastad wedi bod yn wlad llawn straeon

Mae straeon wedi chwarae rhan bwysig yn niwylliant Cymru ers amser maith. Maen nhw'n ein helpu i rannu profiadau, dathlu llwyddiant, trosglwyddo dysgu a chysylltu pobl â lleoedd a chymunedau.

Mae Adroddiadau Caffael Cymdeithasol Gyfrifol Blynyddol yn cynnig cyfle i adlewyrchu'r traddodiad hwn drwy rannu'r straeon y tu ôl i weithgarwch caffael: y bobl, y partneriaethau a'r prosiectau sydd wedi cyfrannu at lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ledled Cymru.

Ochr yn ochr â gofynion adrodd statudol, mae'n bosibl y bydd awdurdodau'n dymuno ystyried sut mae eu hadroddiad yn cyfleu'r cyfraniad ehangach y mae caffael wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn a sut mae hyn yn cefnogi uchelgeisiau a rennir yng Nghymru.



Fframio caffael drwy ganlyniadau

Mae deddfwriaeth a pholisi wedi'u cynllunio'n fwriadol i ganiatáu hyblygrwydd a chreadigrwydd, gan ddarparu llwyfan i arddangos eich blaenoriaethau unigryw. Mewn Adroddiadau Caffael Cymdeithasol Gyfrifol Blynyddol, gallwch fyfyrio ar y canlynol:

- Cymunedau a gryfhawyd
- Partneriaethau a ddatblygwyd
- Sgiliau a chyfleoedd a grëwyd
- Hyrwyddo'r Gymraeg
- Gwelliannau amgylcheddol
- Manteision ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Dathlu'r hyn a gyflawnwyd ledled Cymru

Mae Adroddiadau Caffael Cymdeithasol Gyfrifol Blynyddol yn darparu llwyfan i dynnu sylw at yr hyn a gyflawnwyd a allai fel arall fynd heb gael sylw. Gallai hyn gynnwys enghreifftiau o'r canlynol:

- busnesau lleol yn sicrhau cyfleoedd
- dulliau cydweithredol rhwng sefydliadau
- manteision a wireddir drwy adeiladu cyfoeth cymunedol
- canlyniadau gwaith teg
- cymorth i'r Gymraeg a diwylliant Cymru
- gwelliannau amgylcheddol
- dulliau arloesol o ymdrin â heriau caffael.

Gall rhannu'r straeon hyn helpu i ddangos y cyfraniad y mae caffael yn ei wneud tuag at y pethau sy'n bwysig i'ch cymuned, a'r genedl yn ehangach.

Rhestr wirio gyflym

Dyma'r gofynion sylfaenol a nodir yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (y Ddeddf) a Rheoliadau Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2026 (y Rheoliadau).

Canllaw cyfeirio cyflym yw hwn ac ni ddylid ei ddefnyddio yn lle'r hyn sydd yn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol.

Am ragor o fanylion, ewch i:
Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) | LLYW.CYMRU

Er nad yw'r Ddeddf yn diffinio'r fformat y dylech ei ddefnyddio, efallai y byddai'n werth ystyried gwneud y tair adran hyn yn glir ac yn weladwy yn y strwythur.

Adran 1

Crynodeb o'r ymarferion caffael a arweiniodd at (neu a fwriadwyd i arwain at) ddyfarnu contract rhagnodedig. ☐

I ba raddau y cymerwyd yr holl gamau rhesymol i gyflawni ei amcanion Caffael Cymdeithasol Gyfrifol cyhoeddedig. ☐

Datganiad o gamau pellach y gellid eu cymryd yn rhesymol mewn caffaeliadau yn y dyfodol (lle bo'n berthnasol). ☐

Adran 2

Crynodeb o'r caffael cyhoeddus disgwyliedig yn y 2 flynedd ariannol ddilynol. ☐

Adran 3

Gwybodaeth sydd ei hangen ar Weinidogion Cymru i asesu i ba raddau y mae Awdurdodau Contractio yn cyflawni'r nodau llesiant drwy gyflawni eu hamcanion.* ☐

Canran y gwerth amcangyfrifedig a ddyfarnwyd i gontractwyr sy'n bodloni amodau penodol. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at Reoliad 6 (3). ☐

Cyflawni Nodau Llesiant

Er mwyn cydymffurfio â **Rheoliad 6**, cofnodwch y nodweddion canlynol sy'n berthnasol i bob cyflenwr dan gontract:

- yn darparu cyfleoedd o ran y Gymraeg ☐
- cyflenwr wedi'i leoli yng Nghymru ☐
- BBaCh ☐
- yn fenter gymdeithasol / sefydliad anllywodraethol â gwerthoedd yn ei lywio ☐
- wedi cyhoeddi Cynllun lleihau carbon ☐
- yn meddu ar ddatganiad polisi amgylcheddol ☐
- wedi ei ardystio gan y Living Wage Foundation ☐
- yn cydnabod undeb llafur ☐
- wedi bodloni amod contract dim oriau ☐
- yn darparu polisi a hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ☐
- wedi llofnodi'r Cod Cyflogaeth Foesegol ☐

Edrych drwy lens Gymreig

Mae'r Nodau Llesiant yn helpu i adrodd stori sut mae caffael yn gwneud gwahaniaeth. Defnyddiwch y rhestr wirio hon i nodi'r canlyniadau y mae eich contractau yn helpu i'w cyflawni:

- Cymru lewyrchus ☐
- Cymru gydnerth ☐
- Cymru iachach ☐
- Cymru sy'n fwy cyfartal ☐
- Cymru o gymunedau cydlynus ☐
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ☐
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. ☐

*Mae hyn mewn perthynas â phob contract 'adroddadwy', nid rhai rhagnodedig yn unig. Gallwch ddod o hyd i ddiffiniad o gontractau adroddadwy yn Rheoliad 6 (4).

© Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG55303
OGL